Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Plas Garnedd**

**Cartref Preswyl Plas Garnedd**
**Ffordd Penmynydd**
**Llanfairpwllgwyngyll**
**LL61 5EX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Plas Garnedd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | PLAS GARNEDD CARE LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Gorffennaf 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl wedi setlo ac yn hapus yn byw yn y cartref. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd, y staff gofal sy'n eu cefnogi a'r rheolwr. Caiff gweithgareddau amrywiol eu hwyluso sy'n rhoi cyfleoedd i'r bobl gymdeithasu ag eraill sy'n byw yn y cartref. Caiff mynediad i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ei drefnu mewn modd amserol a chefnogir y bobl i gadw'n iach. Nid oes gan rai o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth gynllun personol ar waith i gofnodi eu hanghenion gofal a sut y dylid eu diwallu. Yn ogystal, nid oes asesiadau risg ar waith pan fo'n ofynnol bob amser. Mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Caiff gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo bod y rheolwr yn eu cefnogi'n dda iawn. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol, defnyddir staff cegin a chadw tŷ hefyd. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n gysylltiedig â'u rolau ac mae angen cymryd camau ar frys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Nid yw'r trefniadau sydd ar waith i fonitro ansawdd y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol ac mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r amgylchedd yn hygyrch, yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae ystafelloedd y bobl eu hunain wedi'u personoli ac mae'r ardaloedd cymunedol yn gartrefol. Gwelsom sawl risg i ddiogelwch y bobl yn y cartref nad oeddent wedi cael ei nodi gan y darparwr gwasanaeth. Mae angen cymryd camau gweithredu brys i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac i wella'r mesurau rheoli heintiau sydd ar waith.

## Llesiant

Mae trefniadau ar waith i amddiffyn y bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r gweithwyr gofal yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y bobl. Gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am faterion i'r rheolwr ac maent yn sicr y byddai camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal, ond nid pob un ohonynt, wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Mae polisi diogelu ar waith y gall gweithwyr gofal gyfeirio ato i gael arweiniad, os bydd angen.

Caiff y gwasanaeth ei ddarparu newis iaith y bobl. Caiff y Gymraeg ei chydnabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol lle mae'r cartref wedi'i leoli. Mae llawer o'r gweithwyr gofal, a'r rheolwr, yn ddwyieithog. Mae hyn yn golygu y gall pobl fynegi eu hanghenion, teimladau a'u hemosiynau yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn ei siarad, a gall gweithwyr gofal eu deall.

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn y cartref, ac yn canmol y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Dywedon nhw'r canlynol wrthym am y cartref: *“Lle braf i fyw”, “Staff annwyl” , “Staff arbennig”.* Teimlant eu bod yn cael croeso a chânt sicrwydd o wybod bod y gweithwyr gofal yno os bydd angen eu cefnogaeth arnynt. Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n iach ac i fod mor iach â phosibl. Dywedodd perthnasau wrthym fod y cartref yn cyfathrebu'n dda â nhw, a'u bod hefyd yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Ni chaiff anghenion y bobl eu cofnodi mewn cynlluniau personol bob amser ac mae angen sylw ar unwaith ar y maes hwn o'r gwasanaeth.

Cynigir dewisiadau sy'n galluogi'r bobl i deimlo bod ganddynt reolaeth, ond ni chaiff hawl y bobl i gyfrinachedd ei ddiogelu bob amser. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dewis eu harferion dyddiol eu hunain, megis yr amser maent yn codi yn y bore ac yn mynd i'r gwely gyda'r nos. Darperir gweithgareddau, fel garddio, ymarfer corff ysgafn, celf a chrefft ac ymweliadau gan gi therapi anwes. Caiff y bobl eu hannog i dreulio amser gyda phobl eraill, ond mae'r gweithwyr gofal yn parchu dymuniadau'r bobl os bydd yn well ganddynt aros yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae gwybodaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir ar gael ac mae'r bobl yn teimlo y gallant godi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt. Ni chaiff gwybodaeth sensitif a chyfrinachol ei storio'n gywir bob amser, ac mae angen sylw ar unwaith i fynd i'r afael â'r maes hwn o'r gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol, ond ni chaiff y risgiau i ddiogelwch y bobl eu nodi bob amser. Mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd eu hunain, a gallant wneud iddynt deimlo fel eu gofod eu hunain. Ni chaiff risgiau rheoli heintiau, a risgiau iechyd a diogelwch

eu nodi bob amser. Mae hyn yn golygu na chaiff diogelwch y bobl ei ddiogelu'n llwyr a bod angen sylw ar unwaith ar y maes hwn o'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i gynnal eu hiechyd. Mae'r cofnodion yn dangos y cysylltir â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn briodol i gael cyngor pan fydd unrhyw newidiadau'n digwydd i amgylchiadau'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn trefnu sylw meddygol ar eu rhan "*Yn syth*" pan fydd ei angen arnynt. Cadarnhaodd y perthnasau hyn, a gwnaethant ddweud wrthym fod y rheolwr yn rhoi gwybod iddynt bob amser am unrhyw newidiadau yn iechyd eu haelod o'r teulu a'u meddyginiaeth. Caiff deiet iach a maethlon ei hyrwyddo ac mae dewisiadau ar gael ar gyfer pob pryd o fwyd.

Nid oes cynlluniau personol ar waith bob amser i gofnodi anghenion gofal penodol a dewisiadau unigol pob unigolyn ar sut maent yn dymuno cael eu cefnogi. Mae hyn yn golygu na all y gweithwyr gofal gael gafael ar wybodaeth ysgrifenedig mewn perthynas â'r hyn y gall y bobl ei wneud eu hunain a pha dasgau y mae angen iddynt gael cymorth gyda nhw. Nid oes cynllun ysgrifenedig ar waith i arwain gweithwyr gofal mewn perthynas â'r ffordd y dylent ddiwallu anghenion pob unigolyn. Mae hyn yn creu risg oherwydd ni fydd pob gweithiwr gofal yn gwybod pa gymorth sydd ei angen ar bob unigolyn ac o bosibl yn achosi anghysonderau yn y gofal y mae'r bobl yn ei gael. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Ni chaiff dogfennau gofal eu hysgrifennu mewn modd sensitif bob amser ac ni chaiff gwybodaeth gyfrinachol ei storio'n ddiogel bob amser. Gwelsom fod data personol y bobl i'w gweld mewn ardaloedd cymunedol, lle y gallai pobl heb awdurdod eu gweld. Gwelsom hefyd fod gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth y bobl i'w gweld yn eu hystafelloedd eu hunain, lle y gallai ymwelwyr eu gweld. Mae hyn yn effeithio ar hawl y bobl i breifatrwydd. Gwanethom drafod hyn â'r rheolwr a ddywedodd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei harddangos i arwain gweithwyr gofal mwy newydd ar sut i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dylid cofnodi'r wybodaeth hon yng nghynlluniau personol y bobl er mwyn i'r gweithwyr gofal eu gweld. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r arferion rheoli heintiau sydd ar waith yn gadarn ac nid ydynt yn diogelu'r bobl rhag y risg o heintiau yn llwyr. Gwelsom nad oedd y trefniadau a oedd ar waith i leihau'r risg o ledaenu COVID-19 yn ystod brigiad o achosion yn gadarn ac nid oeddent yn diogelu iechyd y bobl. Yn ogystal, gwelsom fod cynhyrchion ymolchi ac eliau croen wedi'u rhagnodi yn cael eu storio mewn ystafelloedd ymolchi cymunedol. Roedd yn anodd gwybod i bwy roeddent yn perthyn ac roedd hyn yn peri risg pe bai pobl eraill yn eu defnyddio. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd cartrefol a chyfforddus. Gall y bobl wneud i'w hystafelloedd eu hunain deimlo fel eu gofod eu hunain, drwy gael eu heitemau pwysig eu hunain o'u cwmpas. Gwelsom y bobl yn arddangos ffotograffau o'u teulu yn eu hystafelloedd eu hunain ac mae ganddynt eu blancedi a'u clustogau eu hunain o gartref ynddynt. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd. Ceir dewis o lolfeydd gwahanol a heulfan lle y gall y bobl dreulio amser gydag eraill neu gyda'u perthnasau sy'n ymweld, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae dewis o ystafelloedd bwyta ar gael hefyd. Mae ardaloedd cymunedol y cartref yn cynnwys ffotograffau o'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol sydd wedi'u cynnal yn y gwasanaeth. Mae silffoedd llyfrau ar gael gydag amrywiaeth o lyfrau y gall y bobl eu benthyg os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae ardaloedd eistedd ar gael yn yr awyr agored a gwelsom y bobl yn defnyddio'r ardal hon i dreulio amser gyda'u perthnasau yn yr heulwen. Mae'r gerddi mewn cyflwr da gyda choed, prysgoed a blodau'n eu gwneud yn lle dymunol i eistedd y tu allan.

Nid yw'r risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd wedi cael eu nodi a'u rheoli bob amser ac mae hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y bobl. Wrth gerdded o gwmpas y cartref, gwelsom sawl enghraifft o risgiau a oedd heb eu nodi ac roedd hyn yn golygu nad oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth yn cael eu diogelu'n llwyr rhag niwed. Gwelsom nad oedd cemegau wedi'u storio'n ddiogel. Gwelsom nad oedd dodrefn trwm wedi'u gosod ar y wal yn ddiogel ac nid oedd gorchuddion addas ar y rheiddiaduron, ac roeddent yn peri risg i'r bobl pe byddent yn cwympo. O ran diogelwch tân, cynhelir profion larwm tân wythnosol, ac yna caiff y system larwm tân ei gwasanaethu pan fydd angen. Dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd o bedwar i'r gegin, sef “da”, yn dilyn arolygiad gan yr awdurdod lleol. Mae'r dogfennau'n dangos mai'r tro diwethaf i'r dyfeisiau nwy gael eu gwasanaethu oedd ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn golygu bod y dyfeisiau nwy yn hwyr yn cael archwiliad gwasanaeth i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Cymerodd yr Unigolyn Cyfrifol gamau ar unwaith yn dilyn yr arolygiad er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r holl faterion iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Mae'r dogfennau'n dangos bod gwiriadau yn cael eu cwblhau cyn y daw gweithwyr gofal newydd i weithio yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn addas i weithio mewn cartref gofal. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn hoffi dod i adnabod y bobl maent yn eu cefnogi a dysgu am eu hanesion bywyd. Mae rhai o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y cartref ers nifer o flynyddoedd. Dywedodd y gweithwyr gofal mwy newydd wrthym eu bod yn gobeithio parhau i ddatblygu eu gyrfa a chymryd mwy o gyfrifoldebau yn y cartref gofal. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd ac mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn fuddiol. Mae pob gweithiwr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un â'r rheolwr bob tri mis. Mae hyn yn rhoi amser gwarchodedig i drafod eu gwaith a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n fawr gan y rheolwr. Gwnaethant ddweud wrthym fod y rheolwr yn *“Approachable”* ac yn eu cefnogi i fod yn fwy hyderus yn eu rolau. Nid yw'r lefelau staffio yn ddigonol i ddiwallu anghenion gofal y bobl. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym y gallant fod yn brysur iawn, ond fel rheol, mae ganddynt ddigon o amser i'w dreulio gyda'r bobl i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Defnyddir staff cegin a chadw tŷ, sy'n golygu y gall y gweithwyr gofal ymroi eu hamser i gyd i gefnogi'r bobl.

Nid yw'r holl weithwyr gofal a staff eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi cwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Dangosodd y cofnod hyfforddiant a welsom nad oedd sawl aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys diogelu, diogelwch tân, cymorth cyntaf, rheoli heintiau a hyfforddiant dementia. Yn ogystal, ni roddwyd hyfforddiant i weithwyr gofal mewn perthynas â'r cyflyrau iechyd penodol sy'n effeithio ar y bobl sy'n byw yn y cartref. Dangosodd y cofnodion gofal a welsom fod hyn yn effeithio ar eu dealltwriaeth o ran sut y bydd cyflyrau iechyd gwahanol yn effeithio ar ofal penodol ac anghenion cymorth pob unigolyn. Bydd darparu hyfforddiant penodol mewn perthynas â chyflyrau iechyd yn gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Yn dilyn ein hymweliad, gwelsom fod gan yr Unigolyn Cyfrifol gynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael ag anghenion hyfforddi'r gweithiwr gofal. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Nid yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir yn effeithiol. Mae sawl newid wedi digwydd o fewn arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn ystod y tair blynedd diwethaf. Dylid cynnal adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis o leiaf, ond dangosodd y cofnodion a welsom fod yr adolygiadau'n digwydd yn flynyddol. Nid oedd yr adroddiad adolygu'n cynnwys dadansoddiad o'r data sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu achosion a fu bron â digwydd, fel cwympiadau, ond gwelsom gofnodion o ddamweiniau a ddangosodd fod sawl cwymp heb ei weld wedi digwydd. Yn ogystal, nid oedd yr adroddiad adolygu'n cynnwys unrhyw archwiliadau o gofnodion a gwblhawyd, fel cynlluniau personol. Ni wnaeth systemau ansawdd y gofal a

oedd ar waith nodi'r meysydd gwasanaeth a welsom yn ystod ein hymweliad y mae angen sylw arnynt ar unwaith. Rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac mae'n rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid oes gan y bobl gynlluniau personol ar waith i gofnodi eu hanghenion gofal a chymorth bob amser. Sicrhau bod gan y bobl gynlluniau personol ar waith i gofnodi beth yw eu hanghenion gofal a chymorth, sut y dylid eu diwallu a pha ganlyniadau y mae'r bobl yn dymuno eu cyflawni. Nid oes asesiadau risg ar waith bob amser i gofnodi'r risgiau a nodwyd i iechyd a diogelwch y bobl, a sut y byddant yn cael eu rheoli. Sicrhau bod asesiadau risg ar waith pan fydd angen. | Newydd |
| 57 | Nid oes mesurau ar waith bob amser i ddiogelu'r bobl rhag risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd. | Newydd |
| 56 | Nid yw'r mesurau rheoli heintiau ar waith yn diogelu iechyd y bobl yn llawn. Sicrhau bod arferion rheoli | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | heintiau yn dilyn deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol. | |
| 25 | Ni chaiff y gofal a'r cymorth a ddarperir ei gofnodi mewn ffordd barchus a sensitif. Dylid sicrhau bod y gofal a'r cymorth y mae'r bobl yn eu cael yn cael eu dogfennu mewn ffordd barchus a sensitif. Ni chaiff gwybodaeth y bobl ei storio'n ddiogel bob amser. Sicrhau bod data a gwybodaeth sensitif yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn diogelu hawl y bobl i gyfrinachedd. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol nac wedi cael hyfforddiant arbenigol sy'n ymwneud ag anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arbenigol sy'n ymwneud ag anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. | Newydd |
| 80 | Ni chaiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau o leiaf bob chwe mis, fel sy'n ofynnol. Nid yw'r adolygiadau o ansawdd y gofal a gwblhawyd yn cynnwys y camau gweithredu sy'n ofynnol i asesu, monitro a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn effeithiol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2024